

## HOLBACHE (HOLBECHE, etc.), DAVID (fl. 1377-1423), cyfreithiwr, sefydlydd ysgol ramadeg Croesoswallt

**Enw:** David Holbache  
**Priod:** Gwenhwyfar Holbache  
**Rhiant:** Ieuan Goch ap Dafydd Goch ap Iorwerth ap Cynwrig ap Heilyn ap Trahaearn ab Iddon  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** cyfreithiwr, sefydlydd ysgol ramadeg Croesoswallt  
**Maes gweithgaredd:** Addysg; Cyfraith  
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ar waethaf ei gyfenw (na chafwyd hyd yn hyn esboniad arno), Cymro ydoedd; yn ôl yr ach yn Harl. MS. 4181 (*Powys Fadog*, iv, 93) a **Peniarth MS 129** (gan **Gutyn Owain**) yr oedd yn fab i Ieuan Goch ap Dafydd Goch ap Iorwerth ap Cynwrig ap Heilyn ap Trahaearn ab Iddon, yr Heilyn uchod o Bentre Heilyn, yn Ellesmere; yr oedd ganddo diroedd yn Dudleston yn 'swydd y Waun'; yr oedd yn stiward tref ac arglwyddiaeth Croesoswallt ac (yn 1409) yn ddirprwy-stiward arglwyddiaeth lâl a Maelor Gymraeg. Bu'n aelod, naill ai dros Amwythig neu dros sir Amwythig, mewn Seneddau rhwng Chwefror 1406 a Thachwedd 1417.

Colledwyd ef yn ddirfawr yn rhyfeloedd **Owain Glyndŵr**; yn ôl ei betisiwn yn 1406-7 (*Rotuli Parliamentorum*, iii, 600-1) yr oedd wedi colli 2,000 morc ar renti ei diroedd yng Nghymru, heblaw dioddef difrod o gryn 2,000 morc ar ei eiddo. Nid annatoriol felly fu iddo gwyno ei fod rhwng deufaen y felin - plaid **Owain** yn ei erlid, a'r deddfau seneddol gwrth- Gymreig yn gwahardd iddo freiniau Sais. Felly, cafodd gan y Senedd (*Rotuli Parliamentorum*, iii, 590; *Calendar of Patent Rolls*, 1405-8, 245, 298) ofyn i'r brenin nid yn unig ei ddigolledu mewn rhan drwy roi iddo dir a fforffetiwyd gan ryw Gymro 'gwrthryfelgar,' ond hefyd estyn dinasyddiaeth a breiniau Sais iddo, er ei fod 'yn Gymro cyfan, o'i dad ac o'i fam' (*entier Galois*).

A chofio'r holl hanes, anodd dros ben yw credu Stow (yn 1615) pan ddywed i Holbache wedyn ymbil â Harri i roi pardwn i **Owain Glyndŵr**. Eithr gwyddom i sicrwydd i Holbache wneud cyffelyb gymwynas â Chymro arall, sef **Adam de Usk**, oblegid dywed pardwn hwnnw (20 Mawrth 1411 - *Cal. Pat. Rolls*, 1408-13, 283) mai ar gais 'David Holbache, yswain' y rhoddwyd ef.

Rhwng 1418 a 1421 (nid yw'r dogfennau cynharaf ar gael) gwaddolodd Holbache ysgol ramadeg rad yng Nghroesoswallt, y gyntaf o'i bath yng Nghymru; chwaneogwyd at y gwaddol gan ei weddw Gwenhwyfar. Profwyd ei ewyllys yn 1423; ni adawodd ond gweddw a merch.

Ar gam yr awgryma Leland mai ef oedd y 'David' a sefydlodd yr 'Inn of Court' yn Holborn a enwid yn 'Thavies Inn' (*Itinerary in Wales*, arg. Toulmin Smith, 75).

### Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

### Ffynonellau

*Bye-Gones, relating to Wales and the Border Counties*, 1881 (mynegai)

J. E. Lloyd, *Owen Glendower / Owen Glyn Dwr* (1931), 139, n.

L. S. Knight, *Welsh independent grammar schools to 1600 their charters of foundation, deeds, statutes, customs, etc.* (Newtown 1926)

Bulkeley-Owen, *The founder and first trustees of Oswestry Grammar School* (Oswestry c.1903) (dogfennau pwysig)

a'r cyfeiriadau a roddwyd uchod

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q16844174

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Jenkins, R. T., (1953). HOLBACHE (HOLBECHE, etc.), DAVID (fl. 1377-1423), cyfreithiwr, sefydlydd ysgol ramadeg Croesoswallt. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 8 Hyd 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-HOLB-DAV-1377>

Copïo'r

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Yn ddor  
Llywodraeth Cymru  
Supported by  
Welsh Government